## CAL:ON Cymru: Hysbysiad Preifatrwydd

### 1. Cyflwyniad

CAL:ON Cymru (y Ganolfan) yw prosiect llythrennedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn rhan o Brifysgol Bangor.

Prifysgol Bangor yw'r rheolydd data mewn perthynas â'ch gwybodaeth, fel ag y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Data 2018, ac mae wedi ymrwymo i warchod eich hawliau yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR). Cynrychiolydd enwebedig y Brifysgol ar gyfer deddfwriaeth diogelu data, a'r Swyddog Diogelu Data yw:

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Ganolfan yn trin ac yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol.

Mae'r Ganolfan wedi ymrwymo i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol ac i fod yn dryloyw ynghylch pa wybodaeth mae'n ei dal.
Dim ond y Ganolfan fydd yn defnyddio gwybodaeth bersonol a gesglir gan y Ganolfan.

### 2.Y sail gyfreithlon dros brosesu

Rydym yn dibynnu ar eich caniatâd i anfon gohebiaeth farchnata atoch (o dan Erthygl 6(1)(a) UK GDPR a PECR).
Gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

### 3.Pa wybodaeth ydyn ni'n casglu amdanoch chi?

Gan ddefnyddio llwyfan Mailchimp, bydd y Ganolfan yn casglu'ch cyfeiriad e-bost wrth i chi danysgrifio i'n newyddlen. Mae cwestiwn dewisol am eich rôl y gellir ei defnyddio i anfon gwybodaeth wedi'i thargedu a mwy perthnasol i chi.
Mae'r mathau o wybodaeth bersonol a brosesir yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Eich enw
- Eich cyfeiriad e-bost
- Eich rôl (rhiant, addysgwr, arweinydd ysgol neu awdurdod lleol, ymchwilydd neu arall)

Dim ond at wybodaeth a roddwyd gennych chi y mae gennym fynediad.

### 3.Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Bydd y wybodaeth a gesglir gan y Ganolfan wrth i chi danysgrifio i'r newyddlen yn cael ei defnyddio i anfon newyddlenni atoch yn uniongyrchol. Gall gael ei defnyddio ar gyfer gwybodaeth wedi'i thargedu'n fwy penodol yn ôl eich rôl (rhiant, addysgwr, arweinydd ysgol neu awdurdod lleol, ymchwilydd neu arall)).

Rydym yn defnyddio Mailchimp i ddanfon yr e-newyddlen. Am ragor o wybodaeth, gweler hysbysiad preifatrwydd Mailchimp.

## 5. Gwybodaeth bellach yn gysylltiedig â'ch data

### Eich hawliau

Mae gennych hawl i gyrchu'ch gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu'ch gwybodaeth bersonol, i gywiro, dileu, cyfyngu a throsglwyddo'ch gwybodaeth bersonol. Os ydych wedi rhoi caniatâd i'r Ganolfan brosesu unrhyw ddata yna mae gennych ganiatâd hefyd i dynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl.

Dylid gwneud unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau mewn ysgrifen i Swyddog Diogelu Data y Brifysgol (manylion cyswllt uchod) neu drwy e-bost at info-compliance@bangor.ac.uk

Gallwch ddatdanysgrifio o'r rhestr bostio ar unrhyw adeg drwy'r ddolen ar bob newyddlen.

### Diogelwch

Mae deddfwriaeth diogelu data yn mynnu ein bod yn cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel. Golyga hyn y bydd eich preifatrwydd yn cael ei barchu, a bydd pob cam posibl yn cael ei ddefnyddio i atal mynediad a datgelu heb awdurdod.

Dim ond aelodau o'r staff sydd angen mynediad at rannau perthnasol neu'ch holl wybodaeth fydd yn cael eu hawdurdodi i wneud hynny. Bydd gwybodaeth amdanoch ar ffurf electronig yn ddarostyngedig i gyfrinair a mesurau diogelwch eraill ar lwyfan Mailchimp, a bydd ffeiliau papur yn cael eu storio mewn mannau diogel gyda mynediad dan reolaeth.

Ac eithrio Mailchimp, ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'n partneriaid nac unrhyw drydydd parti.